

Tribiwnlys Adolygu | Mental Health Review Iechyd Meddwl Cymru | Tribunal for Wales

Tabl Cymhwysedd

Ceisiadau gan y Claf

Rhan 2 - Cleifion yn yr Ysbyty	Os	Pryd	Nodiadau
Cleifion sy'n cael eu cadw am asesiad 28 diwrnod (adran 2 neu 4)		Caiff claf wneud cais unwaith yn ystod y cyfnod o 14 diwrnod sy'n dechrau ar y diwrnod y derbyniwyd y claf ar gyfer asesiad. Ni chaiff y claf wneud cais yn ystod ail 14 diwrnod ei gadw.	Ar gyfer cleifion sydd yn yr ysbyty eisoes yn anffurfiol, mae hyn yn golygu'r diwrnod pryd derbyniodd yr ysbyty'r cais am dderbyn. Os caiff y cyfnod cadw ar gyfer asesiad ei ymestyn o dan adran 29 i aros gweithrediadau llys sirol i benodi perthynas agosaf i weithredu, gellir gofyn i'r Ysgrifennydd Gwladol gyfeirio'r claf o dan adran 67, heb aros 6 mis am gyfeirio gan Reolwyr Ysbyty.
Cleifion sy'n cael eu cadw ar gyfer triniaeth (adran 3); neu'n cael eu trin fel pe baent yn cael eu cadw felly ar ôl trosglwyddo o warcheidwaeth neu gyn gleifion Gorchymyn Triniaeth Gymunedol (GTG) sy'n cael eu cadw eto o dan adran 3 ar ôl diddymu eu GTG	Cedwir claf ar ôl cais am driniaeth o dan adran 3	Caiff claf wneud cais unwaith yn ystod y cyfnod o 6 mis sy'n dechrau ar y diwrnod y derbyniwyd y claf ar gyfer triniaeth.	Ar gyfer cleifion sydd yn yr ysbyty eisoes, mae hyn yn golygu'r diwrnod y derbyniodd yr ysbyty'r cais am dderbyn.
	Bydd cyfnod cadw claf yn cael ei adnewyddu wedyn o dan (neu fel pe bai o	Caiff claf wneud cais unwaith yn ystod y cyfnod yr adnewyddwyd y cyfnod cadw ar ei gyfer.	Y cyfnod adnewyddu cyntaf yw 6 mis pellach. Mae'r cyfnodau dilynol yn 12 mis. Mae'r hawl newydd i wneud cais yn dechrau pan mae'r cyfnod newydd yn dechrau.

Tribiwnlys Adolygu | Mental Health Review Iechyd Meddwl Cymru | Tribunal for Wales

	dan) adran 20		
	Caiff GTG claf ei ddiddymu ac mae'r claf yn cael ei roi'n ôl ar adran 3	Caiff claf wneud cais unwaith yn ystod y cyfnod o 6 mis sy'n dechrau ar y diwrnod y diddymwyd y GTG (fel gyda derbyn o'r newydd o dan adran 3, bydd y cyfnod adnewyddu cyntaf hefyd yn 6 mis).	Hefyd rhaid i'r ysbyty gyfeirio'r achos cyn gynted ag y caiff y GTG ei ddiddymu. Gellir cyfuno cyfresi niferus o weithrediadau neu ddelio â nhw gyda'i gilydd.

Tribiwnlys Adolygu | Mental Health Review Iechyd Meddwl Cymru | Tribunal for Wales

Rhan 2 - Cleifion yn y Gymuned	Os	Pryd	Nodiadau
Cleifion yn y gymuned sydd â GTG	Bydd claf adran 3 neu 37 yn cael GTG.	Caiff y claf wneud cais unwaith yn ystod y cyfnod o 6 mis sy'n dechrau ar ddiwrnod y GTG.	
	Wedyn mae GTG y claf yn cael ei ymestyn o dan (neu fel pe bai o dan) Adran 20A y cyfnod y mae'r GTG wedi cael ei ymestyn ar ei gyfer.	Caiff y claf wneud cais unwaith yn ystod y cyfnod estyniad cyntaf o 6 mis. Mae'r cyfnodau dilynol yn 12 mis. Mae'r hawl newydd i wneud cais yn dechrau pan mae'r cyfnod newydd yn dechrau.	
	Caiff GTG claf ei ddiddymu ac mae'r claf yn cael ei roi'n ôl yn Adran 3.	Caiff y claf wneud cais unwaith yn ystod y cyfnod o 6 mis sy'n dechrau ar ddiwrnod diddymu'r GTG (fel gyda derbyn o'r newydd o dan Adran 3, bydd y cyfnod adnewyddu cyntaf hefyd yn 6 mis).	Hefyd rhaid i'r ysbyty gyfeirio'r achos cyn gynted ag y caiff y GTG ei ddiddymu. Gellir cyfuno cyfresi niferus o weithrediadau neu ddelio â nhw gyda'i gilydd.
Cleifion gwarcheidwaeth	Derbynnir claf i	Caiff y claf wneud cais	Nid yw trosglwyddo o ysbyty i warcheidwaeth yn

Tribiwnlys Adolygu | Mental Health Review Iechyd Meddwl Cymru | Tribunal for Wales

Os bydd llys troseddol wedi gwneud Gorchymyn Gwarcheidwaeth - gweler Rhan 3 (Cleifion Heb Gyfyngiadau yn y Gymuned)	warcheidwaeth o dan Ran 2.	unwaith yn ystod y cyfnod o 6 mis sy'n dechrau ar ddiwrnod derbyn y cais.	creu unrhyw hawliau newydd i wneud cais.
	Mae gwarcheidwaeth claf yn cael ei hadnewyddu wedyn o dan (neu fel pe bai o dan) adran 20.	Y cyfnod y mae'r warcheidwaeth yn cael ei hadnewyddu ar ei gyfer.	Y cyfnod adnewyddu cyntaf yw 6 mis. Mae'r cyfnodau dilynol yn 12 mis. Mae'r hawl newydd i wneud cais yn dechrau pan mae'r cyfnod newydd yn dechrau.

Tribiwnlys Adolygu | Mental Health Review Iechyd Meddwl Cymru | Tribunal for Wales

Rhan 3 - Cleifion Heb Gyfyngiadau yn yr Ysbyty	Os	Pryd	Nodiadau
Cleifion heb gyfyngiadau sydd o dan Orchymnion Ysbytai heb gyfyngiadau (er enghraifft, adran 37 neu 51);	Adnewyddir Gorchymyn Ysbyty heb gyfyngiadau claf o dan (neu fel pe bai o dan) adran 20.	Caiff y claf wneud cais unwaith yn ystod y cyfnod yr adnewyddwyd y cyfnod cadw ar ei gyfer .	Y cyfnod adnewyddu cyntaf yw 6 mis. Mae'r cyfnodau dilynol yn 12 mis. Mae'r hawl newydd i wneud cais yn dechrau pan mae'r cyfnod newydd yn dechrau.
Cleifion yn cael eu trin fel pe baent yn dod o dan orchymyn adran 37 am nad yw eu Gorchymyn Cyfyngiad yn berthnasol mwyach - syniadol 37.	Bydd Gorchymyn Cyfyngiad claf yn dod i ben neu'n cael ei godi.	Caiff y claf wneud cais unwaith yn ystod y cyfnod o 6 mis sy'n dechrau ar y diwrnod y daeth effaith y Gorchymyn Cyfyngiad i ben.	
Cyn gleifion GTG Rhan 3 sy'n cael eu cadw eto ar ôl diddymu GTG a wnaed ar ôl Gorchymyn Ysbyty heb gyfyngiadau.	GTG Rhan 3 claf yn cael ei ddiddymu - fel bod y claf yn cael ei gadw eto ar sail gorchymyn ysbyty heb gyfyngiadau.	Caiff y claf wneud cais unwaith yn ystod y cyfnod o 6 mis sy'n dechrau ar ddiwrnod diddymu'r GTG – oni bai fod y GTG wedi cael ei ddiddymu o fewn 6 mis i wneud y Gorchymyn Ysbyty yn y llys, ac os felly mae'r cyfnod yn dechrau 6 mis ar ôl gwneud y Gorchymyn Ysbyty ac yn dod i ben 6 mis ar ôl diddymu'r GTG.	Esiampl: Bydd claf yn cael gorchymyn adran 37 ar 1 Ion ac wedyn mae'n cael ei roi o dan GTG ar 31 Mawrth. Diddymir y GTG ar 31 Mai. Gellir gwneud cais rhwng 1 Gorffennaf a 30 Tachwedd. Rhaid i'r ysbyty gyfeirio'r achos cyn gynted ag y mae'r GTG yn cael ei ddiddymu hefyd. Gellir cyfuno cyfresi niferus o weithrediadau neu ddelio â nhw gyda'i gilydd. Nid oes unrhyw hawl i wneud cais i'r tribiwnlys yn ystod y 6 mis cyntaf ar ôl i lys troseddol wneud gorchymyn ysbyty heb gyfyngiadau.
Cleifion heb gyfyngiadau sy'n cael cyfarwyddyd trosglwyddo	Bydd claf yn derbyn Cyfarwyddyd	Caiff y claf wneud cais unwaith yn ystod y cyfnod	Y cyfnod adnewyddu cyntaf yw 6 mis. Mae'r cyfnodau dilynol yn 12 mis. Mae'r hawl newydd i

Tribiwnlys Adolygu | Mental Health Review Iechyd Meddwl Cymru | Tribunal for Wales

<p>(adran 47 neu 48).</p> <p>Cleifion sy'n cael eu trin fel pe baent o dan gyfarwyddyd trosglwyddo heb gyfyngiadau oherwydd nad yw eu cyfarwyddyd cyfyngiadau'n berthnasol mwyach.</p>	<p>Trosglwyddo heb gyfyngiadau</p>	<p>o 6 mis sy'n dechrau ar ddiwrnod rhoi'r Cyfarwyddyd Trosglwyddo.</p>	<p>wneud cais yn dechrau pan mae'r cyfnod newydd yn dechrau.</p>
<p>Cleifion heb gyfyngiadau sydd â chyfarwyddiadau ysbytai (adran 45A) nad yw cyfarwyddiadau cyfyngiadau'n berthnasol iddynt mwyach.</p>	<p>Bydd y cyfnod cadw'n cael ei adnewyddu wedyn o dan (neu fel pe bai o dan) Adran 20</p> <p>Neu</p> <p>Mae cyfyngiadau claf dan gyfyngiadau'n dod i ben neu'n cael eu codi.</p>	<p>Caiff y claf wneud cais unwaith yn ystod y cyfnod yr adnewyddir y cyfnod cadw ar ei gyfer.</p> <p>Y cyfnod o 6 mis yn dechrau ar y diwrnod y daeth effaith y Cyfarwyddyd Cyfyngiadau i ben.</p>	
<p>Cyn gleifion GTG Rhan 3 a gedwir eto ar ôl diddymu GTG a wnaed ar ôl cyfarwyddyd ysbyty neu gyfarwyddyd trosglwyddo heb gyfyngiadau.</p>	<p>Diddymir GTG Rhan 3 claf.</p>	<p>Caiff y claf wneud cais unwaith yn ystod y cyfnod o 6 mis sy'n dechrau ar y diwrnod y diddymwyd y GTG.</p>	<p>Hefyd rhaid i'r ysbyty gyfeirio'r achos cyn gynted ag y caiff y GTG ei ddiddymu. Gellir cyfuno cyfresi niferus o weithrediadau neu ddelio â nhw gyda'i gilydd.</p>

Tribiwnlys Adolygu | Mental Health Review Iechyd Meddwl Cymru | Tribunal for Wales

Rhan 3 - Cleifion Heb Gyfyngiadau yn y Gymuned	Os	Pryd	Nodiadau
Cleifion cymunedol sydd o dan GTG a gafodd, ar unwaith cyn cael GTG, eu cadw o dan Gyfarwyddyd Ysbyty, Cyfarwyddyd Trosglwyddo neu Orchymyn Ysbyty heb gyfyngiadau.	Rhyddheir claf o dan GTG o Orchymyn Ysbyty heb gyfyngiadau a roddwyd gan lys yn ystod y 6 mis blaenorol	Caiff y claf wneud cais unwaith yn ystod y cyfnod sy'n dechrau 6 mis ar ôl y diwrnod pryd gwnaed y Gorchymyn Ysbyty gan y llys, gan orffen 6 mis ar ôl gwneud y GTG.	Esiampl: Mae claf yn cael Gorchymyn Ysbyty heb gyfyngiadau ar 1 Ion a GTG ar 1 Mawrth. Gellir gwneud cais rhwng 1 Gorffennaf a 31 Awst.
	Mae unrhyw glaf Rhan 3 arall yn dod yn glaf cymunedol.	Caiff y claf wneud cais unwaith yn ystod y cyfnod o 6 mis sy'n dechrau ar y diwrnod y gwnaed y GTG.	
	Caiff GTG Rhan 3 claf ei ymestyn wedyn o dan (neu fel pe bai o dan) adran 20A	Caiff y claf wneud cais unwaith yn ystod y cyfnod y cafodd y GTG ei ymestyn ar ei gyfer.	Y cyfnod estyniad cyntaf yw 6 mis. Bydd y cyfnodau dilynol yn 12 mis. Mae'r hawl newydd i wneud cais yn dechrau pan mae'r cyfnod newydd yn dechrau.
Cleifion <u>gwarcheidwaeth</u>	Gwneir Gorchymyn Gwarcheidwaeth gan lys troseddol o dan Ran 3	Caiff y claf wneud cais unwaith yn ystod y cyfnod o 6 mis sy'n dechrau ar y diwrnod y gwnaed y Gorchymyn.	Nid yw trosglwyddo o ysbyty yn creu unrhyw hawliau newydd i wneud cais.
	Caiff gwarcheidwaeth claf ei hadnewyddu wedyn o dan (neu	Caiff y claf wneud cais unwaith yn ystod y cyfnod y mae'r warcheidwaeth yn cael ei hadnewyddu ar	Y cyfnod adnewyddu cyntaf yw 6 mis. Bydd y cyfnodau dilynol yn 12 mis. Mae'r hawl newydd i wneud cais yn dechrau pan mae'r cyfnod newydd yn dechrau.

Tribiwnlys Adolygu | Mental Health Review
Iechyd Meddwl Cymru | Tribunal for Wales

	fel pe bai o dan) adran 20.	ei gyfer.	
--	--------------------------------	-----------	--

Tribiwnlys Adolygu | Mental Health Review Iechyd Meddwl Cymru | Tribunal for Wales

Rhan 3 - Cleifion sydd â Chyfyngiadau yn yr Ysbyty	Os	Pryd	Nodiadau
Cleifion o dan Orchymynion Ysbyty adran 37 (neu 51) a hefyd Gorchymyn sydd â chyfyngiadau o dan adran 41.	Bydd claf yn cael ei gadw yn yr ysbyty o dan orchymyn ysbyty cyfyngedig ac nid yw wedi cael ei ryddhau'n amodol erioed.	Caiff y claf wneud cais unwaith yn ystod y cyfnod sy'n dechrau 6 mis ar ôl y diwrnod pryd gwnaed y Gorchymyn Ysbyty cyfyngedig ac yn dod i ben 6 ar ôl hynny ac wedyn unwaith ym mhob cyfnod dilynol o 12 mis.	EsiampI: Caiff claf sy'n derbyn Gorchymyn Ysbyty cyfyngedig ar 1 Ionawr wneud cais unwaith rhwng 1 Gorffennaf a 31 Rhagfyr ac unwaith rhwng 1 Ionawr a 31 Rhagfyr bob blwyddyn wedi hynny.
	Mae claf wedi cael ei ryddhau'n amodol ond wedyn mae'n cael ei alw'n ôl i'r ysbyty.	Caiff y claf wneud cais unwaith yn ystod y cyfnod sy'n dechrau 6 mis ar ôl y diwrnod pan gyrhaeddodd y claf yr ysbyty neu'r uned y cafodd ei alw'n ôl iddo neu iddi ac yn gorffen 6 mis ar ôl hynny, ac wedyn unwaith ym mhob cyfnod dilynol o 12 mis.	EsiampI: Os bydd claf yn cael ei alw'n ôl ar 1 Ionawr ac os bydd yn cyrraedd yr ysbyty perthnasol ar 2 Ionawr, dim ond unwaith y caiff wneud cais i'r ysbyty perthnasol rhwng 2 Gorffennaf ac 1 Ionawr y flwyddyn ganlynol, ac wedyn unwaith rhwng 2 Ionawr ac 1 Ionawr y flwyddyn wedyn, ac felly ymlaen bob blwyddyn. Hefyd rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol gyfeirio'r achos i sylw'r tribiwnlys pan gaiff y claf ei alw'n ôl. Gellir cyfuno cyfresi niferus o weithrediadau neu ddelio â nhw gyda'i gilydd.
Cleifion sy'n derbyn Cyfarwyddiadau Ysbyty a Chyfyngiadau gan lys (adran 4SA)	Cedwir claf mewn ysbyty o dan Gyfarwyddiadau Ysbyty a Chyfyngiadau ac nid yw wedi cael ei	Caiff y claf wneud cais unwaith yn ystod y cyfnod sy'n dechrau 6 mis ar ôl y diwrnod pryd gwnaed y cyfarwyddiadau	EsiampI: Caiff claf sy'n derbyn Cyfarwyddiadau Ysbyty a Chyfyngiadau ar 1 Ion wneud cais rhwng 1 Gorffennaf a 31 Rhagfyr y flwyddyn honno, ac unwaith rhwng 1 Ion a 31 Rhagfyr ym mhob blwyddyn ddilynol.

Tribiwnlys Adolygu | Mental Health Review Iechyd Meddwl Cymru | Tribunal for Wales

	ryddhau'n amodol erioed.	ac yn dod i ben 6 mis ar ôl hynny; wedyn unwaith ym mhob cyfnod dilynol o 12 mis.	
	Mae claf wedi cael ei ryddhau'n amodol ond wedyn caiff ei alw'n ôl i'r ysbyty.	Caiff y claf wneud cais unwaith yn ystod y cyfnod sy'n dechrau 6 mis ar ôl y diwrnod pryd cyrhaeddodd y claf yr ysbyty neu'r uned y cafodd ei alw'n ôl iddo neu iddi, ac yn dod i ben 6 mis ar ôl hynny; wedyn unwaith ym mhob cyfnod dilynol o 12 mis.	Esiaml: Os bydd claf yn cael ei alw'n ôl ar 1 Ionawr ac os bydd yn cyrraedd yr ysbyty perthnasol ar 2 Ionawr, dim ond unwaith y caiff wneud cais i'r ysbyty perthnasol rhwng 2 Gorffennaf ac 1 Ionawr y flwyddyn ganlynol, ac wedyn unwaith rhwng 2 Ionawr ac 1 Ionawr y flwyddyn wedyn, ac felly ymlaen bob blwyddyn. Hefyd rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol gyfeirio'r achos i sylw'r tribiwnlys pan gaiff y claf ei alw'n ôl. Gellir cyfuno cyfresi niferus o weithrediadau neu ddelio â nhw gyda'i gilydd.
Cleifion sy'n cael cyfarwyddyd trosglwyddo (adrannau 47 neu 48) gyda chyfarwyddyd cyfyngiadau (adran 49)	Bydd claf yn cael ei gadw o dan Gyfarwyddyd Trosglwyddo ac nid yw wedi cael ei ryddhau'n amodol erioed.	Caiff y claf wneud cais unwaith yn ystod y cyfnod o 6 mis sy'n dechrau ar y diwrnod pryd gwnaed y cyfarwyddiadau; wedyn unwaith yn ystod y cyfnod dilynol o 6 mis; wedyn unwaith yn ystod pob cyfnod dilynol o 12 mis.	Esiaml: Caiff claf sy'n derbyn Cyfarwyddyd Trosglwyddo cyfyngedig ar 1 Ion wneud cais unwaith rhwng 1 Ion a 31 Mehefin; unwaith rhwng 1 Gorffennaf a 31 Rhagfyr; ac unwaith rhwng 1 Ionawr a 31 Rhagfyr ym mhob blwyddyn ddilynol.
	Bydd claf wedi cael ei ryddhau'n amodol ond wedyn mae'n cael ei alw'n ôl i'r	Caiff y claf wneud cais unwaith yn ystod y cyfnod sy'n dechrau 6 mis ar ôl y diwrnod pryd cyrhaeddodd y	Esiaml: Os bydd claf yn cael ei alw'n ôl ar 1 Ionawr ac os bydd yn cyrraedd yr ysbyty perthnasol ar 2 Ionawr, dim ond unwaith y caiff wneud cais rhwng 2 Gorffennaf y flwyddyn honno

Tribiwnlys Adolygu | Mental Health Review Iechyd Meddwl Cymru | Tribunal for Wales

	ysbyty.	claf yr ysbyty neu'r uned y cafodd ei alw'n ôl iddi, ac yn dod i ben 6 mis ar ôl hynny; wedyn unwaith ym mhob cyfnod dilynol o 12 mis.	ac 1 Ionawr y flwyddyn ganlynol, ac wedyn unwaith rhwng 2 Ionawr ac 1 Ionawr y flwyddyn wedyn, ac felly ymlaen bob blwyddyn. Hefyd rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol gyfeirio'r achos i sylw'r tribiwnlys pan gaiff y claf ei alw'n ôl. Gellir cyfuno cyfresi niferus o weithrediadau neu ddelio â nhw gyda'i gilydd.
--	---------	--	--

Tribiwnlys Adolygu | Mental Health Review Iechyd Meddwl Cymru | Tribunal for Wales

Rhan 3 - Cleifion sydd â Chyfyngiadau yn y Gymuned	Os	Pryd	Nodiadau
Cleifion sy'n cael eu rhyddhau'n amodol o Orchmynion Ysbyty cyfyngedig, Cyfarwyddiadau Ysbyty a Chyfyngiadau, neu Gyfarwyddiadau Trosglwyddo cyfyngedig.	Bydd y claf wedi cael ei ryddhau'n amodol ond wedyn mae'n cael ei alw'n ôl i'r ysbyty.	Caiff y claf wneud cais unwaith yn ystod y cyfnod o 12 mis sy'n dechrau 12 mis ar ôl diwrnod y rhyddhau amodol; wedyn unwaith ym mhob cyfnod dilynol o 2 flynedd.	Esiaml: Caiff claf sy'n cael ei ryddhau'n amodol ar 1 Ionawr 2012 wneud cais unwaith rhwng 1 Ionawr 2013 a 31 Rhagfyr 2013, ac wedyn unwaith rhwng 1 Ionawr 2014 a 31 Rhagfyr 2015 ac ati.

Tribiwnlys Adolygu | Mental Health Review Iechyd Meddwl Cymru | Tribunal for Wales

Ceisiadau gan y Perthynas Agosaf

Perthnasau Agosaf yn ryddhau cleifion Rhan 2	Os	Pryd	Nodiadau
<p>Caiff perthnasau agosaf ryddhau cleifion Rhan 2 eu hunain - oni bai am y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • mae'r Clinigydd Cyfrifol yn gwahardd gorchymyn perthynas agosaf ar gyfer rhyddhau'r claf o'r ysbyty, neu o GTG; neu • mae'r perthynas agosaf yn cael ei ddisodli rhag gweithredu fel hyn gan y Llys Sirol. 			<p>Ni chaiff y perthynas agosaf ryddhau claf Rhan 3 (ond gall wneud cais i'r tribiwnlys o dan amodau arbennig) ac ni chaiff ryddhau na gwneud cais mewn perthynas â chlaf o dan gyfyngiadau.</p>

Tribiwnlys Adolygu | Mental Health Review Iechyd Meddwl Cymru | Tribunal for Wales

Rhan 2 - Cleifion yn yr Ysbyty	Os	Pryd	Nodiadau
<p>Mae'n berthnasol i berthnasau agosaf cleifion adran 3 a gedwir ar gyfer triniaeth ac y mae'r gorchymyn ar gyfer eu rhyddhau wedi'i wahardd.</p>	<p>Mae'r Clinigydd Cyfrifol yn gwahardd gorchymyn perthynas agosaf ar gyfer rhyddhau claf sy'n cael ei gadw ar gyfer triniaeth o dan adran 3.</p>	<p>Caiff y perthynas agosaf wneud cais unwaith yn ystod y cyfnod o 28 diwrnod sy'n dechrau gyda'r diwrnod pryd rhoddwyd gwybod iddo am adroddiad y Clinigydd Cyfrifol sy'n gwahardd rhyddhau.</p>	<p>Dyma'r unig achos lle mae perthynas agosaf sydd heb gael ei ddisodli o ran claf Rhan 2 sy'n cael ei gadw'n gallu gwneud cais i'r tribiwnlys. Nid oes hawl i wneud cais i'r tribiwnlys ar ôl gwahardd rhyddhau claf sy'n cael ei gadw ar gyfer ei asesu o dan adran 2.</p>
<p>Hawliau perthnasau agosaf sydd wedi'u disodli, lle mae'r perthynas agosaf wedi'i ddisodli gan y Llys Sirol ar sail* y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • mae ef neu hi wedi gwrthwynebu'n afresymol i gais am dderbyn ar gyfer triniaeth, neu am warcheidwaeth; neu • mae ef neu hi wedi ymarfer, neu mae'n debygol o ymarfer, ei bŵer i ryddhau heb roi ystyriaeth briodol i les y claf nac i fuddiannau'r cyhoedd. 	<p>Mae perthynas agosaf claf sy'n cael ei gadw o dan adran 3 wedi cael ei ddisodli.</p>	<p>Caiff y perthynas agosaf sydd wedi'i ddisodli wneud cais unwaith yn ystod y cyfnod o 12 mis sy'n dechrau ar ddiwrnod y gorchymyn llys; ac wedyn unwaith ym mhob cyfnod dilynol o 12 mis tra mae'r gorchymyn mewn grym.</p>	<p>*Nid oes gan berthnasau agosaf a gaiff eu disodli ar unrhyw sail arall hawl i wneud cais i'r tribiwnlys.</p>

Tribiwnlys Adolygu | Mental Health Review Iechyd Meddwl Cymru | Tribunal for Wales

Rhan 2 - Cleifion yn y Gymuned	Os	Pryd	Nodiadau
Cleifion yn y gymuned sydd o dan GTG.	Mae'r Clinigydd Cyfrifol yn gwahardd gorchymyn perthynas agosaf ar gyfer rhyddhau'r claf o GTG.	Caiff y perthynas agosaf wneud cais unwaith yn ystod y cyfnod o 28 diwrnod sy'n dechrau gyda'r diwrnod pryd rhoddwyd gwybod iddo am adroddiad y Clinigydd Cyfrifol sy'n gwahardd rhyddhau.	Gan fod perthnasau agosaf cleifion o dan warcheidwaeth Rhan 2 yn gallu rhyddhau cleifion eu hunain, nid oes ganddynt hawl i wneud cais i'r tribiwnlys (oni bai eu bod wedi'u disodli - gweler isod).
<p>Hawliau perthnasau agosaf sydd wedi'u disodli, lle mae'r perthynas agosaf wedi'i ddisodli gan y Llys Sirol ar sail* y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • mae ef neu hi wedi gwrthwynebu'n afresymol i gais am dderbyn ar gyfer triniaeth, neu am warcheidwaeth; neu • mae ef neu hi wedi ymarfer, neu mae'n debygol o ymarfer, ei bŵer i ryddhau heb roi ystyriaeth briodol i les y claf nac i fuddiannau'r cyhoedd. 	Mae perthynas agosaf claf sydd o dan GTG neu warcheidwaeth Rhan 2 wedi cael ei ddisodli.	Caiff y perthynas agosaf sydd wedi'i ddisodli wneud cais unwaith yn ystod y cyfnod o 12 mis sy'n dechrau ar ddiwrnod y gorchymyn llys ac wedyn unwaith ym mhob cyfnod dilynol o 12 mis.	*Nid oes gan berthnasau agosaf a gaiff eu disodli ar unrhyw sail arall hawl i wneud cais i'r tribiwnlys.

Tribiwnlys Adolygu | Mental Health Review Iechyd Meddwl Cymru | Tribunal for Wales

Rhan 3 - Cleifion Heb Gyfyngiadau yn yr Ysbyty	Os	Pryd	Nodiadau
<p>Mae'n berthnasol i berthnasau agosaf y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • cleifion heb gyfyngiadau sy'n cael eu cadw gan orchmynion ysbytai, cyfarwyddiadau ysbytai neu gyfarwyddiadau trosglwyddo; • cleifion sy'n cael eu trin fel rhai o dan orchymyn neu gyfarwyddyd o'r fath; • cyn gleifion GTG Rhan 3 sydd wedi cael eu cadw ar ôl diddymu eu GTG. 	<p>Bydd cyfnod cadw claf yn cael ei adnewyddu wedyn o dan (neu fel pe bai o dan) adran 20.</p>	<p>Caiff y perthynas agosaf wneud cais unwaith yn ystod y cyfnod y mae'r cyfnod cadw'n cael ei adnewyddu ar ei gyfer.</p>	<p>Y cyfnod adnewyddu cyntaf yw 6 mis. Bydd y cyfnodau dilynol yn 12 mis.</p> <p>Mae'r hawl newydd i wneud cais yn dechrau pan mae'r cyfnod newydd yn dechrau.</p> <p><i>Nodyn: Hyd yn oed pan ganiateir i glaf wneud cais yn ystod y 6 mis cyntaf o gadw, ni chaiff y perthnasau agosaf wneud hynny.</i></p>
	<p>Diddymir GTG Rhan 3 claf.</p>	<p>Caiff y perthynas agosaf wneud cais unwaith yn ystod y cyfnod o 6 mis sy'n dechrau ar ddiwrnod diddymu'r GTG, oni bai fod y GTG wedi cael ei ddiddymu o fewn 6 mis i wneud y gorchymyn ysbyty, ac os felly mae'r cyfnod yn dechrau 6 mis ar ôl gwneud y gorchymyn ysbyty ac yn dod i ben 6 mis ar ôl diddymu'r GTG.</p>	<p>Esiaml: Mae claf yn cael gorchymyn adran 37 ar 1 Ion ac wedyn mae'n cael ei roi o dan GTG ar 31 Mawrth. Diddymir y GTG ar 31 Mai. Gellir gwneud cais rhwng 1 Gorffennaf a 30 Tachwedd. Rhaid i'r ysbyty gyfeirio'r achos cyn gynted ag y mae'r GTG yn cael ei ddiddymu hefyd.</p> <p>Gellir cyfuno cyfresi niferus o weithrediadau neu ddelio â nhw gyda'i gilydd.</p> <p>Ni chaiff perthnasau agosaf sydd wedi'u disodli wneud ceisiadau mewn perthynas â chleifion Rhan 3 a gedwir.</p>

Tribiwnlys Adolygu | Mental Health Review Iechyd Meddwl Cymru | Tribunal for Wales

Rhan 3 - Cleifion Heb Gyfyngiadau yn y Gymuned	Os	Pryd	Nodiadau
Cleifion cymunedol sydd o dan GTG a gafodd, ar unwaith cyn cael GTG, eu cadw o dan Gyfarwyddyd Ysbyty, Cyfarwyddyd Trosglwyddo neu Orchymyn Ysbyty heb gyfyngiadau.	Bydd claf yn cael ei ryddhau ar GTG o orchymyn ysbyty heb gyfyngiadau a roddwyd gan lys yn ystod y 6 mis blaenorol	Caiff y perthynas agosaf wneud cais unwaith yn ystod y cyfnod sy'n dechrau 6 mis ar ôl y dyddiad y gwnaed y gorchymyn ysbyty ac yn dod i ben 6 mis ar ôl y diwrnod pryd gwnaed y GTG.	Esiampl: Mae claf yn cael gorchymyn ysbyty heb gyfyngiadau ar 1 Ion a GTG ar 1 Mawrth; gellir gwneud cais rhwng 1 Gorffennaf a 31 Awst.
	Mae unrhyw glaf Rhan 3 arall yn dod yn glaf yn y gymuned.	Caiff y perthynas agosaf wneud cais unwaith yn ystod y cyfnod o 6 mis sy'n dechrau ar y diwrnod pryd gwnaed y GTG.	
	Bydd cyfnod cadw claf yn cael ei adnewyddu wedyn o dan (neu fel pe bai o dan) Adran 20 A.	Caiff y perthynas agosaf wneud cais unwaith yn ystod y cyfnod y mae'r GTG wedi cael ei adnewyddu ar ei gyfer.	Y cyfnod estyniad cyntaf yw 6 mis. Bydd y cyfnodau dilynol yn 12 mis. Mae'r hawl newydd i wneud cais yn dechrau pan mae'r cyfnod newydd yn dechrau.
Cleifion gwarcheidwaeth (Rhan 3 yn unig)	Gwneir gorchymyn gwarcheidwaeth gan lys troseddol.	Caiff y perthynas agosaf wneud cais unwaith yn ystod y cyfnod o 12 mis sy'n dechrau gyda'r diwrnod pryd gwnaed y gorchymyn, ac wedyn mewn unrhyw 12 mis dilynol.	Ni chaiff perthnasau agosaf sydd wedi'u disodli wneud ceisiadau mewn perthynas â GTG Rhan 3 neu gleifion Gwarcheidwaeth.

Tribiwnlys Adolygu | Mental Health Review Iechyd Meddwl Cymru | Tribunal for Wales

Cyfeirio i Dribiwnlys

Cyfeirio ar ôl 6 Mis o Ddyddiad y Cadw Gwreiddiol	Os	Pryd	Nodiadau
Rhaid i reolwyr ysbytai gyfeirio rhai cleifion i'r tribiwnlys.	Ers cadw'r claf am y tro cyntaf, mae chwe mis wedi mynd heibio heb gais na chyfeirio perthnasol i'r tribiwnlys.		<p>Nodyn 1: Mae'r ddyletswydd i gyfeirio'n berthnasol hyd yn oed i gleifion sydd eisoes wedi cael gwrandawriad o ganlyniad i gais a wnaed tra oeddent yn cael eu cadw ar gyfer eu hasesu (oni bai fod y cais wedi'i wneud gan berthynas agosaf sydd wedi'i ddisodli).</p> <p>Nodyn 2: Nid yw rhai ceisiadau eraill yn dod o dan adran 68(3) (a).</p> <p>Nodyn 3: Ni effeithir ar ddyletswydd rheolwyr yr ysbyty i gyfeirio gan geisiadau neu gyfeirio a wneir ond a dynnir yn ôl wedyn.</p> <p>Nodyn 4: Mae ceisiadau neu gyfeirio i'r Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl (Cymru) yn cyfrif.</p>
Mae hyn yn golygu na fydd raid i unrhyw glaf a gadwyd yn wreiddiol o dan Ran 2, wrth gael ei gadw neu fod o dan GTG, aros am fwy na 6 mis cyn i'w achos ef neu hi gael ei roi gerbron y tribiwnlys.	Claf Adran 3 Rhan 2 neu GTG. (Hefyd cleifion adran 2 os oedd y cadw'n ymestyn o dan adran 29).	<p>Oni bai fod cais neu gyfeirio perthnasol wedi'i wneud eisoes i'r tribiwnlys, rhaid cyfeirio 6 mis ar ôl y dyddiad derbyn i'r ysbyty.</p> <p>Nodyn: Os derbyniwyd yn wreiddiol ar gyfer asesiad o dan adran 2 (neu 4) mae'r amser yn rhedeg o</p>	Rheolwyr yr ysbyty ble mae'r claf yn cael ei gadw neu, os yw'n glaf GTG, rheolwyr yr ysbyty cyfrifol, sydd â'r ddyletswydd.

Tribiwnlys Adolygu | Mental Health Review Iechyd Meddwl Cymru | Tribunal for Wales

		ddyddiad y derbyn gwreiddiol.	
	Claf Rhan 3 a osodwyd o dan Orchymyn Gwarcheidwaeth yn wreiddiol gan lys troseddol, ac wedyn ei drosglwyddo i ysbyty o dan Orchymyn Ysbyty.	Oni bai fod cais neu gyfeirio perthnasol wedi'i wneud eisoes i'r tribiwnlys, rhaid cyfeirio 6 mis ar ôl y dyddiad trosglwyddo o warcheidwaeth.	Mae hyn yn berthnasol hefyd os yw'r claf wedi mynd ymlaen wedyn i GTG Rhan 3 o'r Gorchymyn Ysbyty.

Cyfeirio ar ôl 3 blynedd (neu 1 flwyddyn os yw'r claf o dan 18 oed)	Os	Pryd	Nodiadau
Hefyd rhaid i reolwyr ysbytai gyfeirio'r holl gleifion sy'n cael eu cadw heb gyfyngiadau a chleifion GTG (boed Rhan 2 neu Ran 3).	Mae mwy na 3 blynedd (neu 1 flwyddyn i gleifion o dan 18 oed) wedi mynd heibio o'r dyddiad pryd cafodd achos y claf ei ystyried ddiwethaf gan y tribiwnlys.		Nodyn Mae gwrandawiadau gerbron Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl (Cymru) yn cyfrif.
Yn achos cleifion Rhan 3 heb gyfyngiadau nad yw eu hachosion wedi cael eu clywed erioed gan y tribiwnlys.	Os nad oedd y Claf yn glaf gyda chyfyngiadau'n flaenorol	Mae'r cyfnod o 3 blynedd (1 flwyddyn) yn para o ddyddiad y Gorchymyn Ysbyty/Cyfarwyddyd Trosglwyddo.	

Tribiwnlys Adolygu | Mental Health Review Iechyd Meddwl Cymru | Tribunal for Wales

Yn achos cleifion Rhan 3 heb gyfyngiadau nad yw eu hachosion wedi cael eu clywed erioed gan y tribiwnlys.	Os nad oedd y Claf yn glaf gyda chyfyngiadau'n flaenorol.	Mae'r cyfnod o 3 blynedd (1 flwyddyn) yn para o'r dyddiad pryd daeth cyfyngiadau'r claf i ben neu pryd cawsant eu codi.	Rheolwyr yr ysbyty ble mae'r claf yn cael ei gadw neu, os yw'n glaf GTG, rheolwyr yr ysbyty cyfrifol, sydd â'r ddyletswydd.
---	--	--	---

Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru

Mental Health Review Tribunal for Wales

Atgyfeiriadau Eraill - Cleifion Heb Gyfyngiadau

<p>Os diddymir GTG claf, rhaid i reolwyr yr ysbyty ble caiff y claf ei gadw wedyn gyfeirio'r achos cyn gynted â phosib ar ôl y diddymu. Hefyd caiff y claf wneud cais yn ystod y cyfnod o 6 mis sy'n dechrau ar ddiwrnod diddymu'r GTG. Gellir cyfuno cyfresi niferus o weithrediadau neu ddelio â nhw gyda'i gilydd.</p>	<p>Os yw claf yn absennol heb ganiatâd pan mae'n ofynnol i reolwyr ysbyty gyfeirio ei achos i'r tribiwnlys, nid yw'r ddyletswydd i gyfeirio'n berthnasol nes bydd y claf yn cael ei hebrwng i'w gadw a'i ddychwelyd i'r ysbyty, neu ddychwelyd yn wirfoddol.</p>
<p>Cyfeirio dewisol gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros lechyd</p>	<p>Caiff yr Ysgrifennydd Gwladol dros lechyd gyfeirio'r achos i dribiwnlys ar unrhyw adeg.</p>

Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru

Mental Health Review Tribunal for Wales

Atgyfeiriadau Eraill - Cleifion Gyda Chyfyngiadau

Cyfeirio gorfodol gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder	<p>Rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder gyfeirio achos claf sydd â chyfyngiadau i'r tribiwnlys os cedwir y claf mewn ysbyty ac os oes tair blynedd wedi mynd heibio heb i achos y claf gael ei ystyried gan y tribiwnlys (neu Dribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl (Cymru)).</p> <p>Hefyd rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder gyfeirio i'r tribiwnlys achos pob claf a ryddheir yn amodol ac a gaiff eu galw'n ôl i'r ysbyty. Rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol gyfeirio i'r tribiwnlys ar unwaith ac, mewn unrhyw achos, o fewn mis i'r claf gyrraedd, neu gael ei gludo i'r ysbyty y mae wedi cael ei alw'n ôl iddo.</p>
Cyfeirio dewisol gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder	Caiff yr Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder gyfeirio achos claf sydd â chyfyngiadau i'r tribiwnlys ar unrhyw adeg. Mae hyn yn cynnwys cleifion sydd wedi cael eu rhyddhau'n amodol.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

Mae'r Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Mae'r tribiwnlys hefyd yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg neu yn Saesneg.

Gallwch chi gyflwyno ffurflenni, dogfennau a chyflwyno sylwadau ysgrifenedig i'r tribiwnlys yn Gymraeg neu'n Saesneg.